Follow us on twitter
@PartCymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Participation Cymru

Annual Report 20010/11

Adroddiad Blynyddol 20010/11

Cyfranogaeth Cymru

Foreword

Effective citizen engagement is at the heart of public service design and delivery. Citizens are best placed to understand the impact of public services and to influence their future shape, and their potential to deliver the most effective and beneficial outcomes for citizens. The Welsh Government has long recognised that, and has funded Participation Cymru to provide support to those delivering public services in Wales in order to bolster the capacity of those organisations to undertake effective engagement with the people they serve.

I am delighted to be able to use this foreword to acknowledge Participation Cymru's contribution to the defining principle of citizen-centred public policy. It has been central to this Government's One Wales Programme, and a further three-year commitment from the Welsh Government demonstrates confidence in Participation Cymru to continue delivering improvements in the public engagement capacity of public services.

The independent evaluation of Participation Cymru's work to date provided Welsh Ministers with a compelling case to invest further in the organisation to allow it to build on its success to date in supporting effective engagement, and to take it to the next level in supporting the community of individuals, and developing networks, in public service organisations striving to inform service design and delivery with the real voice of the citizen.

One of Participation Cymru's many achievements has been the development and adoption, with the endorsement of Welsh Ministers, of National Principles for Public Engagement. These are now in place and being disseminated widely, providing a bedrock of advice and best practice for engagement practitioners in public service organisations. These will support Participation Cymru's work over the next three years to build on its success to date.

John Palmer

Former Director
Public Services Improvement Directorate
Welsh Government

Rhagair

Mae cysylltu'n effeithiol â dinasyddion wrth wraidd cynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Mae dinasyddion yn y sefyllfa orau i ddeall effaith gwasanaethau cyhoeddus a dylanwadu ar eu dyfodol, a'u potensial i gyflawni'r canlyniadau mwyaf effeithiol a manteisiol i ddinasyddion. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hynny ers tro, ac wedi ariannu Cyfranogaeth Cymru i roi cefnogaeth i'r rheini sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sy'n cryfhau gallu'r mudiadau hynny i gysylltu'n effeithiol â'r bobl maent yn eu gwasanaethu.

Rwyf wrth fy modd i allu defnyddio'r rhagair hwn i gydnabod cyfraniad Cyfranogaeth Cymru i'r egwyddor sy'n diffinio polisi cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae wedi bod yn ganolog i Raglen Cymru'n Un y Llywodraeth hon, ac mae ymrwymiad pellach o dair blynedd gan Lywodraeth Cymru yn dangos hyder yn Cyfranogaeth Cymru i barhau i sicrhau gwelliannau yng ngallu gwasanaethau cyhoeddus i ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae gwerthusiad annibynnol o waith Cyfranogaeth Cymru hyd yn hyn wedi rhoi achos cymhellol i Weinidogion Cymru fuddsoddi ymhellach yn y mudiad i'w alluogi i adeiladu ar ei lwyddiant hyd yn hyn wrth gefnogi ymgysylltiad effeithiol, a'i symud i'r lefel nesaf wrth gefnogi'r gymuned o unigolion, a datblygu rhwydweithiau, mewn mudiadau gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymdrechu i lywio'r broses o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau gyda llais y dinesydd.

Un o orchestion niferus Cyfranogaeth Cymru yw datblygu a mabwysiadu Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, gyda chefnogaeth Gweinidogion Cymru. Mae'r rhain bellach ar waith ac yn cael eu lledaenu yn eang, gan ddarparu sylfaen o gyngor ac arfer da ar gyfer ymarferwyr ymgysylltu mewn mudiadau gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y rhain yn cefnogi gwaith Cyfranogaeth Cymru dros y tair blynedd nesaf i adeiladu ar ei lwyddiant hyd yn hyn.

John Palmer

Cyn Gyfarwyddwr
Cyfarwyddiaeth Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru

Introduction:

a word from the chair of the Advisory Panel

2010/11 has been a significant year for the Participation Cymru partnership for a number of reasons. Most importantly we have come through a recent evaluation of our work by the Welsh Government with flying colours. This has secured our future as a key player in participation and engagement for 2011-14, at a time when public services need to be as closely aligned as possible to the needs of service users. Securing this funding demonstrated that we have built up effective collaborative relationships with a wide range of public service deliverers and proved that our training and support is making a difference. In addition we have been asked to work with Welsh Government officials to develop their skills and understanding of what is involved in effective citizen engagement and participation. We welcome this development and look forward to sharing best practice with them.

Secondly we have received Ministerial endorsement of the Principles for Public Engagement that we facilitated through a lengthy period of development and consultation across Wales. This means that there are recognised standards for service deliverers to work with in continually improving their engagement with service users.

Finally we have seen some recent changes on the Advisory Board. Whilst the membership continues to broaden, some key personalities have moved on to pastures new and we wish them well. As the new Chair, I would like to express my gratitude to Neil Caldwell for the sterling work he carried out over a number of years to establish Participation Cymru. The foundations he laid have made my job a relatively easy one. Participation Cymru looks forward to facing its new challenges.

Anne Stephenson
Chair
Participation Cymru Advisory Panel

Cyflwyniad:

gair gan Gadeirydd y Panel Cynghori

Mae 2010/11 wedi bod yn flwyddyn bwysig i bartneriaeth Cyfranogaeth Cymru am nifer o resymau. Y peth pwysicaf yw ein bod wedi pasio gwerthusiad diweddar o'n gwaith gan Lywodraeth Cymru heb unrhyw drafferth. Mae hwn wedi sicrhau ein dyfodol fel chwaraewr allweddol mewn cyfranogiad ac ymgysylltiad ar gyfer 2011-14, ar adeg pan mae angen i wasanaethau cyhoeddus fod mor gydnaws â phosibl gydag anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Wrth sicrhau'r arian hwn dangoswyd ein bod wedi meithrin cydberthnasau cydweithredol effeithiol gydag ystod eang o gyflenwyr gwasanaethau cyhoeddus ac wedi profi bod ein hyfforddiant a'n cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth. Yn ogystal, gofynnwyd i ni weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth o'r hyn a gaiff ei gynnwys mewn ymgysylltiad a chyfranogaeth effeithiol â dinasyddion. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn ac yn edrych ymlaen at rannu arfer gorau gyda hwy.

Yn ail, rydym wedi cael cymeradwyaeth gan Weinidogion ar yr Egwyddorion Ymgysylltu â'r Cyhoedd a hwyluswyd gennym drwy gyfnod hir o ddatblygu ac ymgynghori ledled Cymru. Golyga hyn bod safonau cydnabyddedig ar gyfer cyflenwyr gwasanaeth i'w defnyddio i barhau i wella eu cysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau.

Yn olaf rydym wedi gweld rhai newidiadau diweddar ar y Bwrdd Cynghori. Er bod yr aelodau'n parhau i ehangu, mae rhai pobl allweddol wedi symud ymlaen at gyfleoedd newydd a phob dymuniad da iddynt. Fel y Cadeirydd newydd, hoffwn ddiolch i Neil Caldwell am y gwaith penigamp a wnaeth dros nifer o flynyddoedd i sefydlu Cyfranogaeth Cymru. Mae'r sylfaeni a osododd wedi gwneud fy swydd i yn un gymharol hawdd. Mae Cyfranogaeth Cymru yn edrych ymlaen at wynebu ei heriau newydd.

Anne Stephenson
Cadeirydd
Panel Cynghori Cyfranogaeth Cymru

Review of the Year

It has been a very challenging and rewarding year for the small staff team at Participation Cymru. We are 4 full members of staff working with a number of associate trainers to deliver the advice, support and training needed in public engagement for public service organisations in Wales.

Our team members are now well recognised, whether it is Sarah Jones, who delivers training and supports networks, Dyfrig Williams who edits our e-bulletin and offers advice and guidance via our helpline, Zuzana Mrazkova, who is at the end of the phone to book your training and answer your enquires or Mandy Williams, who oversees the team and works with organisations to meet their engagement needs.

As a team, we have been privileged to work alongside our committed Advisory Panel members in developing and consulting on the National Principles for Public Engagement, now endorsed by Welsh Ministers. Our training and networks have been well supported by a cross section of engagement practitioners from a large variety of public and third sector organisations. We have been called upon to offer advice and support to a number of organisations who themselves have committed to further resourcing and up skilling of their workforce in how they engage with citizens and communities.

As Welsh Government begins its new term of office, we work alongside them and others to deliver the best public services possible for the people of Wales. Together we remain committed to the common purpose of ensuring that services are citizen centred services, fit for purpose and value for money.

It was satisfying to hear from our evaluation review carried out by Robin Shaw (March 2011) on behalf of Welsh Government, these words, ***'I consider that PC has given very effective support to public service managers and providers over the period 2008 to date....and it has also become clear to me during this evaluation that this support has been strongly focussed on the Welsh Assembly Government's policies on improving the active public engagement by public bodies (in all sectors) with the communities they serve'.***

Adolygiad o'r Flwyddyn

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol a gwerth chweil i dîm bach o staff Cyfranogaeth Cymru. Mae gennym 4 aelod llawn o staff yn gweithio gyda nifer o hyfforddwyr cysylltiedig i ddarparu'r cyngor, cefnogaeth a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar fudiadau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wrth ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae aelodau ein tîm bellach yn adnabyddus, p'un a sonir am Sarah Jones, sy'n darparu hyfforddiant ac yn cefnogi rhwydweithiau, Dyfrig Williams, sy'n golygu ein e-fwletin ac yn cynnig cyngor ac arweiniad drwy ein llinell gymorth, Zuzana Mrazkova, sy'n ben arall y ffôn i drefnu eich hyfforddiant ac ateb eich ymholiadau neu Mandy Williams, sy'n goruchwylio'r tîm ac yn gweithio gyda mudiadau i ddiwallu eu hanghenion ymgysylltu.

Fel tîm, rydym wedi cael yr anrhydedd o weithio wrth ochr aelodau ymrwymedig ein Panel Cynghori i ddatblygu ac ymgynghori ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, a gaiff bellach ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae ein hyfforddiant a'n rhwydweithiau wedi cael cefnogaeth dda gan groestoriad o ymarferwyr ymgysylltu o amrywiaeth eang o fudiadau cyhoeddus a thrydydd sector. Rydym wedi cael ein galw i gynnig cyngor a chefnogaeth i nifer o fudiadau sydd wedi ymrwymo i roi medrusrwydd a sgiliau pellach i'w gweithlu o ran y ffordd maent yn ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau.

Wrth i Lywodraeth Cymru ddechrau ei thymor newydd, byddwn yn gweithio ochr yn ochr â hwy ac eraill i gyflenwi'r gwasanaethau cyhoeddus gorau posibl ar gyfer pobl Cymru. Gyda'n gilydd rydym yn parhau'n ymrwymedig i'r diben cyffredin o sicrhau bod gwasanaethau yn canolbwyntio ar y dinesydd, yn addas at y diben ac yn sicrhau gwerth am arian.

Roedd yn foddhaol clywed y geiriau hyn o'n hadolygiad gwerthuso a gynhaliwyd gan Robin Shaw (Mawrth 2011) ar ran Llywodraeth Cymru, ***'Ystyriaf fod CC wedi rhoi cefnogaeth effeithiol iawn i reolwyr a chyflenwyr gwasanaethau cyhoeddus dros y cyfnod o 2008 hyd heddiw...a daeth y glir i mi yn ystod y gwerthuso hwn bod y gefnogaeth hon wedi canolbwyntio'n gryf ar bolisïau Llywodraeth Cymru ar wella ymgysylltiad gweithredol cyrff cyhoeddus (ym mhob sector) â'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu'.***

Advice and Support

'I was particularly struck by the strongly held view within Participation Cymru and its Advisory Panel that their work is to be support the organisation they work with in improving their engagement, not to do it for them'.
(Shaw March 2011, Evaluation of Participation Cymru).

One of the ways in which we support organisations is to be offer a bespoke consultancy and training service. This service can cover a range of issues, from helping to formulate an engagement strategy to working with organisations to run engagement events with the public. Over the year we have worked with 62 separate organisations and developed 18 projects. As an organisation we are committed to supporting and working alongside organisations in their engagement work and not doing it for them. Our aim is to increase capacity and skills within organisations to enable them to do it better for themselves.

Two of those organisations have made a commitment to increase their engagement activity with the public and service users in very particular ways. Consumer Focus Wales decided to train their staff in public engagement methodology so that with the help of Participation Cymru they

Cyngor a Chefnogaeth

'Cefais fy synnu'n bennaf gan safbwynt cryf Cyfranogaeth Cymru a'i Banel Cynghori mai eu gwaith yw cefnogi'r mudiad maent yn gweithio ag ef i wella ei ymgysylltiad, nid i wneud hyn ar ei ran'. (Shaw Mawrth 2011, Gwerthusiad Cyfranogaeth Cymru).

Un o'r ffyrdd rydym yn cefnogi mudiadau yw cynnig gwasanaeth hyfforddi ac ymgynghori pwrpasol. Gall y gwasanaeth hwn gynnwys amrywiaeth o faterion, o helpu i ffurfio strategaeth ymgysylltu i weithio gyda mudiadau i redeg digwyddiadau ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Dros y flwyddyn rydym wedi gweithio gyda 62 o fudiadau unigol a datblygu 18 o brosiectau. Fel mudiad rydym wedi ymrwymo i gefnogi a gweithio ochr yn ochr â mudiadau yn eu gwaith ymgysylltu ac i beidio â'i wneud ar eu rhan. Ein nod yw cynyddu gallu a sgiliau mewn mudiadau i'w galluogi i'w wneud yn well drostynt eu hunain.

Mae dau o'r mudiadau hynny wedi gwneud ymrwymiad i gynyddu eu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau mewn ffyrdd penodol iawn. Penderfynodd Llais Defnyddwyr Cymru hyfforddi eu staff mewn methodoleg ymgysylltu â'r cyhoedd fel y gallent, gyda help Cyfranogaeth Cymru, ymgysylltu â defnyddwyr Cymru ar y materion allweddol a oedd

could engage with Welsh consumers on the key issues that concerned them with regards the services they receive from suppliers, in both the private and public sectors. This activity then informed their business planning for the coming year, helping them to focus on the key issues that were concerning consumers.

The other organisation, Care and Social Service Inspectorate Wales (CSSIW), have also increased the capacity they have to engage with recipients of the services they inspect. Cerys Gage, their engagement manager, has written about their work later in this review.

We have also continued to work closely with NLIAH (National Leadership and Innovation Agency for Health) to deliver public engagement training to Local Health Boards and WLGA (Welsh Local Government Association) to offer support to Local Authority Consultation officers.

A case study:

Participation Cymru works in partnership with Care and Social Services (CSSIW) to inform their Annual Report 2009-10.

The publication of our 2009 -10 Annual Report heralded the start of a new phase of engagement work as for the first time we gathered the views of service users, stakeholders and staff to find out what they thought of our work and of care and support in Wales. Adopting this method provided us with a rich source of information and a model which we have built upon as part of our future engagement.

We asked Participation Cymru to assist us in engaging with service users and their families, carers of service users and other stakeholders. We had already carried out a stakeholder analysis to determine the groups that we wished to engage with - mental health, adults with learning disabilities, older people, children and young people, carers and service providers and provided Participation Cymru with details of the stakeholder map and contacts.

We specified that in order to gather relevant information the engagement methods we wished to use were focus groups, one to one interviews and questionnaires. To ensure a full geographical spread we emphasised the need to cover the 6 regional areas across Wales. We indicated that where it was possible we wanted to do this in a joined up way – that is by joining existing groups or sessions.

Participation Cymru identified arranged and delivered the 7 focus groups between 26 June and 6 July.

The focus groups were all held on the service users 'patch' and this helped to ensure a relaxed and comfortable atmosphere. On average each focus group lasted 90 minutes and the pace of the group was determined by the service users. At the start of the focus group a member from CSSIW provided an introduction which included a few minutes about our role and the purpose of the focus group. Participation Cymru then facilitated the session, providing the service users with pre-determined questions to stimulate discussion. For the majority of sessions we split into small groups comprising of a few service users, their carers and either a member of CSSIW or Participation Cymru. This worked well as the service users felt relaxed in the company of a smaller group with the carer present for support and guidance. The feedback was recorded by either CSSIW or Participation Cymru.

The discussions were lively and the service users were clearly appreciative of the opportunity to share their experiences. Taking this approach gave us the opportunity to hear first hand from the people across Wales, develop networks for future engagement and gather a rich source of information. Listening to the views expressed helped influence the format of our Annual Report as in addition to the report we've published easy reads and summary reports.

The focus groups gave us a strong base for engaging and we're gradually building this into all of our work. Our Chief Inspector has a monthly engagement schedule with service users and discussions have been held with Wrexham Carers Service, Age Cymru and ABCD Cymru. Our Management Board have agreed quarterly engagement sessions across the regions and met with Torfaen Council 'Have Your Say' group on the 25 February. We have a quarterly stakeholder newsletter and send out e-alerts to all our stakeholders advising them once key reports are published. We are currently developing our Engagement Strategy and are proposing to issue for consultation in the late spring.

Cerys Gage
Engagement Manager
CSSIW

yn eu pryderu o ran y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn gan gyflenwyr, yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Gwnaeth y gweithgaredd hwn lywio eu proses cynllunio busnes ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan eu helpu i ganolbwyntio ar y materion allweddol a oedd yn pryderu defnyddwyr.

Mae'r mudiad arall, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), hefyd wedi cynyddu'r gallu sydd ganddynt i ymgysylltu â'r bobl sy'n derbyn y gwasanaethau maent yn eu harchwilio. Mae Cerys Gage, eu rheolwr ymgysylltu, wedi ysgrifennu am eu gwaith yn nes ymlaen yn yr adolygiad hwn.

Rydym hefyd wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd i ddarparu hyfforddiant ymgysylltu â'r cyhoedd i Fyrddau Iechyd Lleol a CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) i gynnig cefnogaeth i swyddogion Ymgynghori Awdurdodau Lleol.

Astudiaeth achos:

Mae Cyfranogaeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC) i lywio eu Hadroddiad Blynyddol 2009-10.

Gwnaeth ein Hadroddiad Blynyddol 2009-10 nodi dechrau cyfnod newydd o waith ymgysylltu gan ein bod wedi casglu safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a staff am y tro cyntaf i weld beth oedd ei barn ar ein gwaith a gofal a chefnogaeth yng Nghymru. Wrth fabwysiadu'r dull hwn cawsom ffynhonell gyfoethog o wybodaeth a model rydym wedi'i ddatblygu fel rhan o'n gwaith ymgysylltu yn y dyfodol.

Gwnaethom ofyn i Cyfranogaeth Cymru i'n cynorthwyo i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd, gofalwyr defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill. Roeddem eisoes wedi cynnal dadansoddiad o randdeiliaid i bennu'r grwpiau roeddem yn dymuno ymgysylltu â hwy - iechyd meddwl, oedolion ag anableddau dysgu, pobl hŷn, plant a phobl ifanc, gofalwyr a chyflenwyr gwasanaethau a rhoi manylion map a chysylltiadau'r rhanddeiliaid i Cyfranogaeth Cymru.

Nodwyd ein bod yn dymuno defnyddio grwpiau ffocws fel dull ymgysylltu i gasglu'r wybodaeth berthnasol, ynghyd â chyfweliadau un i un a holiaduron. Er mwyn sicrhau ymlediad daearyddol llawn gwnaethom bwysleisio'r angen i gwmpasu'r 6 ardal ranbarthol ledled Cymru. Nodwyd ein bod am wneud hyn mewn ffordd cydgysylltiedig lle'r oedd yn bosibl - hynny yw drwy ymuno â sesiynau neu grwpiau sydd eisoes yn bodoli.

Gwnaeth Cyfranogaeth Cymru ganfod, trefnu a chyflwyno'r 7 grŵp ffocws rhwng 26 Mehefin a 6 Gorffennaf.

Cafodd yr holl grwpiau ffocws eu cynnal yn 'ardal' y defnyddwyr gwasanaeth, a helpodd hyn i sicrhau awyrgylch hamddenol a chyfforddus. Ar gyfartaledd roedd pob grŵp ffocws yn parhau am 90 munud a phenderfynwyd ar gyflymder y grŵp gan y defnyddwyr gwasanaethau. Ar ddechrau'r grŵp ffocws rhoddwyd cyflwyniad gan aelod o AGGCC a oedd yn cynnwys rhai munudau am ein rôl a diben y grŵp ffocws. Yna, hwyluswyd y sesiwn gan Cyfranogaeth Cymru, gan roi cwestiynau a benderfynwyd o flaen llaw i ddefnyddwyr gwasanaethau i ysgogi trafodaeth. Am y rhan fwyaf o'r sesiwn rhannwyd ni i grwpiau yn cynnwys rhai defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a naill ai aelod o AGGCC neu Cyfranogaeth Cymru. Gweithiodd hyn yn dda gan i'r defnyddwyr gwasanaeth ymlacio yng nghwmni grŵp llai gyda gofalwr yn bresennol i gael cefnogaeth ac arweiniad. Cofnodwyd yr adborth gan naill ai AGGCC neu Cyfranogaeth Cymru.

Roedd y trafodaethau'n fywiog ac roedd y defnyddwyr gwasanaethau yn amlwg yn gwerthfawrogi'r cyfle i rannu eu profiadau. Wrth ddefnyddio'r dull gweithredu hwn cawsom y cyfle i glywed yn uniongyrchol gan bobl ledled Cymru, datblygu rhwydweithiau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol a chasglu ffynhonell gyfoethog o wybodaeth. Gwnaeth gwrando ar y safbwyntiau a leisiwyd helpu i ddylanwadu ar ffurf ein Hadroddiad Blynyddol gan ein bod wedi cyhoeddi dogfenau hawdd eu darllen ac adroddiadau cryno yn ogystal â'r adroddiad ei hun.

Rhoddodd y grŵp ffocws sail gref i ni ar gyfer ymgysylltu ac rydym yn ymgorffori hwn yn raddol i'n holl waith. Mae gan ein Prif Archwiliwr amserlen ymgysylltu fisol gyda defnyddwyr gwasanaethau ac mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda Gwasanaeth Gofalwyr Wrecsam, Age Cymru a ABCD Cymru. Mae ein Bwrdd Rheoli wedi cytuno i gynnal sesiynau ymgysylltu chwarterol ar draws y rhanbarthau ac wedi cwrdd â grŵp 'Have Your Say' Cyngor Torfaen ar 25 Chwefror. Mae gennym gylchlythyr chwarterol i randdeiliaid ac rydym yn anfon e-rybuddion i'n holl randdeiliaid yn eu cynghori pan fydd adroddiadau allweddol wedi'u cyhoeddi. Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu ein Strategaeth Ymgysylltu ac yn bwriadu paratoi ymgynghoriad yn hwyr yn y Gwanwyn.

Cerys Gage
Rheolwr Ymgysylltu
AGGCC

Training

Training programme

The training programme has continued to offer a wide variety of courses. We have offered 12 different course topics over the year and a total of 36 training days.

We have continued to develop and expand the range of courses we offer. We have seen demand increase significantly which we believe reflects that our courses are meeting the needs of individuals and organisations. Some of the new courses we have offered this year include:

Community & citizen engagement (accredited). This 3-day course is accredited by Agored at level 3, 6 credits. The course ran for the first time this year and attracted a full course, with several people on a waiting list. The course required participants to undertake a project in the workplace, ensuring their learning was grounded in practice.



"Very interesting and highly relevant to my work. Some very practical examples which can be taken back and used in my work" - participant

E-participation Many people asked us for training on e-participation. We ran the course in-house initially, then commissioned associate trainers WISEKIDS to deliver it on our behalf. This is proving to be a very relevant, popular topic and take-up continues to be high.

"Very interesting and relevant to today's market and my needs, everyone should be made aware of what's possible" - participant

Hyfforddi

Rhaglen hyfforddi

Mae'r rhaglen hyfforddi wedi parhau i gynnig amrywiaeth eang o gyrsiau. Rydym wedi cynnig 12 gwahanol pwnc cwrs dros y flwyddyn ddiwethaf a chyfanswm o 36 o ddiwrnodau hyfforddi.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ac ehangu'r ystod o gyrsiau rydym yn eu cynnig. Rydym wedi gweld y galw'n cynyddu'n sylweddol sy'n adlewyrchu bod ein cyrsiau yn diwallu anghenion unigolion a mudiadau yn ein barn ni. Mae rhai o'r cyrsiau newydd rydym wedi'u cynnig eleni yn cynnwys:

Ymgysylltu â'r Gymuned a Dinasyddion (achredu). Caiff y cwrs 3 diwrnod hwn ei achredu gan Agored at gredydau lefelau 3, 6. Cafodd y cwrs ei gynnal am y tro cyntaf eleni ac roedd yn llawn, gyda nifer o bobl ar y rhestr aros. Yn y cwrs hwn roedd yn ofynnol i gyfranogwyr ymgymryd â phrosiect yn y gweithle, gan sicrhau bod eu dysg wedi'i seilio ar ymarfer.

"Diddorol iawn ac yn berthnasol iawn i'm gwaith. Rhai enghreifftiau ymarferol iawn a all gael ei ddefnyddio yn fy ngwaith" - cyfranogwr

E-gyfranogaeth Gofynnodd llawer o bobl i ni am hyfforddiant ar e-gyfranogaeth. Cynhaliwyd y cwrs yn fewnol i ddechrau, yna comisiynwyd hyfforddwyr cysylltiedig WISEKIDS i'w gyflwyno ar ein rhan. Mae hwn yn ymddangos yn bwnc perthnasol a phoblogaidd iawn, ac mae niferoedd yn parhau'n uchel.

"Diddorol iawn ac yn berthnasol i'r farchnad bresennol a'm hanghenion, dylai pawb fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n bosibl" - cyfranogwr

An introduction to storytelling in organisations Storytelling is a powerful way to engage people, share service user experiences and communicate key messages. This course was delivered by Storyworks.

"Extremely beneficial - very good training team, look forward to implementing some of the strategies in my work" - participant

Time 4 young people Timebanking Wales delivered this course, drawing on their experiences of engaging young people through timebanking projects.

"[I will use the skills I've learned to…] engage the managers to positively use time banking with our young people in community activities and social enterprises" - participant

Bespoke training

Our bespoke training has continued to be in high demand, which we believe reflects the excellent value for money this option offers, along with the benefits of having a flexible, bespoke course delivered in-house.

The majority of the bespoke training we have delivered has focussed on a variation of the basic public engagement course, to train participants in both the theory and practice of public engagement. Where possible we have introduced a piece of project work to ensure that learning is grounded in practice and that the organisation benefits from the training leading to a practical piece of work. Other bespoke training has included e-participation, facilitation skills.

"I tasked Participation Cymru with a difficult job – to produce a training session that covered facilitation, training, presentation skills and dealing with difficult behaviour all within a 4-hour time slot. The trainer provided an excellent introduction to all of the above topics, whilst keeping the course light-hearted, participative and fun. Despite the tight time restrictions, the course did not feel rushed, and I received positive feedback from delegates. The handouts provided were very good, and overall the course represented excellent value for money." – organisation receiving facilitation training, September 2010.

Cyflwyniad i adrodd stori mewn mudiadau Mae adrodd straeon yn ffordd effeithiol i ymgysylltu â phobl, rhannu profiadau defnyddwyr gwasanaethau a chyfleu negeseuon allweddol. Cafodd y cwrs hwn ei gyflwyno gan Storyworks.

"Buddiol dros ben – tîm hyfforddi da iawn, edrych ymlaen at roi rhai o'r strategaethau hyn ar waith" - cyfranogwr

Amser i bobl ifanc Cyflwynwyd y cwrs hwn gan Timebanking Wales, gan dynnu ar eu profiadau o ymgysylltu â phobl ifanc drwy brosiectau bancio amser.

"[Byddaf yn defnyddio'r sgiliau rwyf wedi'u dysgu i...] ymgysylltu â'r rheolwyr i ddefnyddio bancio amser mewn modd cadarnhaol gyda'n pobl ifanc mewn gweithgareddau cymunedol a mentrau cymdeithasol" - cyfranogwr

Hyfforddiant pwrpasol

Mae galw mawr ar gyfer ein hyfforddiant pwrpasol o hyd, sy'n adlewyrchu'r gwerth gwych am arian y mae'r dewis hwn yn ei gynnig yn ein barn ni, ynghyd â'r manteision o gyflwyno cwrs hyblyg, pwrpasol yn fewnol.

Mae rhan fwyaf o'r hyfforddiant pwrpasol rydym wedi'i gyflwyno yn canolbwyntio ar amrywiad ar y cwrs sylfaenol ymgysylltu â'r cyhoedd, i hyfforddi cyfranogwyr yn y theori a'r ochr ymarferol o ymgysylltu â'r cyhoedd. Lle y bo'n bosibl rydym wedi cyflwyno rhan o waith prosiect i sicrhau bod dysgu yn cael ei roi ar waith a bod y mudiad yn elwa o'r hyfforddiant sy'n arwain at ddarn o waith ymarferol. Mae hyfforddiant pwrpasol arall wedi cynnwys e-gyfranogaeth, sgiliau hwyluso.

"Rhoddais dasg anodd i Cyfranogaeth Cymru - creu sesiwn hyfforddi sy'n cwmpasu hwyluso, hyfforddiant, sgiliau cyflwyno ac ymdrin ag ymddygiad anodd i gyd o fewn cyfnod o 4 awr. Cafwyd cyflwyniad ardderchog gan yr hyfforddwr ar bob un o'r pynciau uchod, wrth gadw'r cwrs yn ysgafn, yn gyfranogol ac yn hwyl. Er gwaethaf yr amserlen dynn, ni theimlais fod y cwrs yn cael ei frysio, a chefais adborth cadarnhaol gan gynrychiolwyr. Roedd y taflenni a ddarparwyd yn dda iawn, ac yn gyffredinol roedd y cwrs yn cynrychioli gwerth gwych am arian." - mudiad a gafodd hyfforddiant hwyluso, Medi 2010

Seminars

Our good practice seminars offer an opportunity to gain knowledge in a positive sharing and learning environment, with an emphasis on sharing good practice with practitioners from different organisations. We have offered a range of topics in response to feedback from practitioners:

- **Successful project planning**
- **Setting up a network**
- **Basic skills and public engagement**
- **Stakeholder analysis**

"Very specific to my needs – hadn't come across a training course so relevant before. Good opportunity to meet others seeking to improve networks" –participant, Setting up a network seminar March 2011

Networks

Our participation networks have increased significantly in popularity this year. This seems to be a combination of more strategic marketing, word of mouth and increasing amounts of regular attendees. The networks provide a relaxed environment to meet other practitioners, share ideas, issues and learn new techniques.

We continue to facilitate the South East Wales and South West Wales networks up to 4 times a year. Themes this year have included consensus building, dealing with difficult participants, problem trees and principles for engagement.

In October we held a pilot meeting to scope interest in establishing a new network in North East Wales. Attendance was very high and feedback was very positive. We have committed to supporting this network and held a first meeting in February. This was well attended and we look forward to this becoming an established network.

We have continued to support the independently run Caerphilly and Gwynedd facilitators networks. Themes have included World Café, writing questions and physical disability awareness.

"So enjoyed today. Really lovely atmosphere. Great that you just let us have the space to chat!! Really useful day." - Participant, South East Wales network February 2011

Seminarau

Mae ein seminarau arfer da yn cynnig cyfle i feithrin gwybodaeth mewn awyrgylch gadarnhaol o rannu a dysgu, gyda phwyslais ar rannu arfer da gydag ymarferwyr o wahanol fudiadau.

Rydym wedi cynnig amrywiaeth o bynciau mewn ymateb i adborth gan ymarferwyr:

- **Cynllunio prosiect yn llwyddiannus**
- **Sefydlu rhwydwaith**
- **Sgiliau sylfaenol ac ymgysylltu â'r cyhoedd**
- **Dadansoddi rhanddeiliaid**

"Roedd yn benodol iawn i'm hanghenion - nid oeddwn wedi profi cwrs hyfforddi oedd mor berthnasol o'r blaen. Mae'n gyfle da i gwrdd â phobl eraill sy'n ceisio gwella rhwydweithiau" - cyfranogwr, Seminar Sefydlu rhwydwaith Mawrth 2011

Rhwydweithiau

Mae poblogrwydd ein rhwydweithiau cyfranogaeth wedi cynyddu'n sylweddol eleni. Mae'n debyg mae'r rheswm am hyn yw cyfuniad o farchnata strategol, ar lafar a bod mwyfwy o bobl yn dod yn rheolaidd. Mae awyrgylch hamddenol i'r rhwydweithiau i gwrdd ag ymarferwyr eraill, rhannu syniadau, problemau a dysgu technegau newydd.

Rydym yn parhau i hwyluso rhwydweithiau De-ddwyrain Cymru a De-orllewin Cymru hyd at 4 gwaith y flwyddyn. Mae themâu eleni wedi cynnwys adeiladu consensws, ymdrin â chyfranogwyr anodd, coed problemau ac egwyddorion ymgysylltu.

Ym mis Hydref cynhaliwyd cyfarfod peilot i weld a fyddai diddordeb i sefydlu rhwydwaith newydd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Roedd llawer yn bresenol ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r rhwydwaith hon a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Chwefror. Roedd llawer yn bresenol ac edrychwn ymlaen ato ennill ei blwyf.

Rydym wedi parhau i gefnogi rhwydweithiau hwyluswyr Caerffili a Gwynedd sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol. Mae themâu wedi cynnwys Caffi'r Byd, ysgrifennu cwestiynau ac ymwybyddiaeth o anabledd corfforol.

"Wedi mwynhau heddiw'n fawr. Awyrgylch hyfryd dros ben. Mae'n wych eich bod yn gadael i ni gael cyfle i sgwrsio!! Diwrnod defnyddiol iawn." – Cyfranogwr, rhwydwaith De-ddwyrain Cymru Chwefror 2011

Information

The information provided through the Participation Cymru information service helps practitioners to keep up to date with the latest news and policy developments around citizen engagement and participation in Wales, the UK and beyond.

Participation Cymru has a strong online presence, which means that it is easy to keep up to date with the team's activities and access the very latest information in a variety of formats. Our website is constantly updated and includes an RSS (Really Simple Syndication) Feed that means that anyone with an interest can receive a notification as soon as the latest news section is updated. The website also contains a wealth of information on the policy environment in Wales, which ensures that those accessing the site can familiarise themselves with the context in which Participation Cymru works.

There are a range of materials and resources available to practitioners on our website. These include good practice documents and a range of information sheets that contain useful information for those who are new to participative working and those that are experienced in the field.

Participation Cymru now have a Twitter account, which is an online network that connects its users to the latest information about what they find interesting. Twitter allows us to connect to practitioners and organisations in Wales in real-time. The team also uses Twitter to quickly share information with these networks, to gather feedback and to build relationships with them. If you would like to engage with us through this medium please follow @PartCymru at www.twitter.com.

The monthly Participation Cymru newsletter, which contains the very latest information on engagement and participation for public service engagement in Wales, has gone from strength to strength following our survey with its readers about how they would like to see it move forward. 66% of respondents rated the newsletter as a good or excellent source of information on participation, 87% rated the newsletter as a good or excellent source of information on Participation Cymru's activities and 76% said that the frequency of the newsletter was just right. Comments on the newsletter included "very thorough", "excellent" and "one of the few newsletters where I hear new information for the first time… this, for me, is a vital resource". Following the survey a number of changes have been made, including information on a different participatory tool every month and an events section. The newsletter now has over 1900 subscribers.

Gwybodaeth

Mae'r wybodaeth a ddarperir drwy wasanaeth gwybodaeth Cyfranogaeth Cymru yn helpu ymarferwyr i gael gwybod y newyddion a'r datblygiadau polisi diweddaraf o ran ymgysylltu â dinasyddion a chyfranogaeth yng Nghymru, y DU a thu hwnt.

Mae Cyfranogaeth Cymru yn amlwg iawn ar-lein, sy'n golygu ei bod yn hawdd cael y newyddion diweddaraf am weithgareddau'r tîm a chael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf mewn amrywiaeth o ffurfiau. Caiff ein gwefan ei diweddaru'n gyson ac yn cynnwys porthiant RSS (Syndicetiad Syml Iawn) sy'n golygu y gall pawb sydd â diddordeb gael hysbysiad cyn gynted ag y bydd yr adran newyddion wedi cael ei diweddaru. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth ar yr amgylchedd polisi yng Nghymru, sy'n sicrhau y gall y rheini sy'n defnyddio'r safle ymgyfarwyddo â'r cyd-destun y mae Cyfranogaeth Cymru yn rhan ohono.

Mae amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau ar gael i ymarferwyr ar ein gwefan. Mae'r rhain yn cynnwys dogfennau am arfer da ac amrywiaeth o daflenni gwybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i'r rheini sy'n newydd i weithio cyfranogol a'r rheini sy'n brofiadol yn y maes.

Bellach, mae gan Cyfranogaeth Cymru gyfrif Twitter, sef rhwydwaith ar-lein sy'n cysylltu ei ddefnyddwyr â'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd o ddiddordeb iddynt. Mae Twitter yn ein galluogi i gysylltu ag ymarferwyr a mudiadau yng Nghymru mewn amser real. Mae'r tîm hefyd yn defnyddio Twitter i rannu gwybodaeth yn gyflym gyda'r rhwydweithiau hyn, i gasglu adborth a meithrin cydberthnasau gyda hwy. Os hoffech gysylltu â ni drwy'r cyfrwng hwn dilynwch @PartCymru yn www.twitter.com.

Mae cylchlythyr misol Cyfranogaeth Cymru, sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar ymgysylltu a chyfranogaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru, wedi mynd o nerth i nerth yn dilyn ein harolwg gyda'r darllenwyr ynglŷn â sut yr hoffent ei weld yn datblygu. Roedd 66% o'r ymatebwyr o'r farn bod y cylchlythyr yn ffynhonell dda neu wych o wybodaeth ar weithgareddau gyfranogaeth, roedd 87% o'r farn bod y cylchlythyr yn ffynhonell dda neu wych o wybodaeth am weithgareddau Cyfranogaeth Cymru a dywedodd 76% bod amledd y cylchlythyr yn addas. Roedd sylwadau ar y cylchlythyr yn cynnwys "trylwyr iawn", "ardderchog" ac "un o'r ychydig gylchlythyron lle rwy'n clywed gwybodaeth newydd am y tro cyntaf... mae hwn, i mi, yn adnodd hanfodol". Yn dilyn yr arolwg hwn mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud, yn cynnwys gwybodaeth am wahanol ddull cyfranogaeth pob mis ac adran ddigwyddiadau. Bellach mae gan y cylchlythyr dros 1900 o danysgrifwyr.

The National Principles for Public Engagement

These principles are the culmination of a piece of work developed under the guidance of Participation Cymru's Advisory Panel and in close consultation and engagement with those who work in public services. These are principles and NOT standards. They are an overarching set of principles aimed at Public Service organisations across all sectors in Wales. They sit above any specific standards that you may already be using e.g. Standards for Children and Young People, Social Services Improvement Agency standards and are intended to compliment them. They aim to offer a consistent approach and good standard for public engagement across Wales. We are particularly grateful to TPAS Cymru, a member of our advisory panel who played a prominent role in bringing these principles to fruition.

Of course principles alone do not ensure best practice and so the next phase of this work will be to promote the principles and to ensure that they are being put into practice. Over the summer, Participation Cymru will be running a number of regional events to promote and encourage use of the principles. Details of these will be available shortly and can be found at www.participationcymru.org.uk

So what can you do next? The principles and guidance notes can be found at the above website address. Please circulate them to colleagues and other interested parties. We are also asking that organisations join the Welsh Assembly Government in endorsing the Principles and an endorsement form can also be accessed at our website. This should be completed and returned to us at the following address participationcymru@wcva.org.uk

In the meantime if you have an event, AGM, conference that would offer an opportunity to promote these principles then a member of the Participation Cymru would be happy to help with a workshop or presentation. If we are unable to attend then a workshop outline and Power Point presentation can be shared with you to facilitate your own.

Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Yr egwyddorion hyn yw penllanw darn o waith a ddatblygwyd o dan arweiniad Panel Cynghori Cyfranogaeth Cymru ac mewn ymgynghoriad ac ymgysylltiad clos â'r rheini sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus. Egwyddorion yw'r rhain NID safonau. Set o egwyddorion cyffredinol ydynt wedi'u hanelu at fudiadau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws yr holl sectorau yng Nghymru. Maent yn gorwedd uwchlaw unrhyw safonau penodol rydych yn eu defnyddio eisoes o bosibl e.e. y Safonau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, safonau Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a'u bwriad yw eu hategu. Eu nod yw cynnig dull cyson a safon dda ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ledled Cymru. Rydym yn hynod o ddiolchgar i TPAS Cymru, aelod o'n panel cynghori a chwaraeodd rôl amlwg wrth wireddu'r egwyddorion hyn.

Wrth gwrs, nid yw egwyddorion yn unig yn sicrhau arfer gorau ac felly cam nesaf y gwaith hwn fydd hyrwyddo'r egwyddorion a sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith. Dros yr haf, bydd Cyfranogaeth Cymru yn rhedeg nifer o ddigwyddiadau rhanbarthol i hyrwyddo ac annog defnyddio'r egwyddorion. Bydd manylion y rhain ar gael yn fuan a gellir eu gweld yn www.participationcymru.org.uk.

Felly beth allwch wneud nesaf? Gellir gweld yr egwyddorion a nodiadau canllaw yn y cyfeiriad gwe uchod. A fyddech cystal â'u hanfon i gydweithwyr a phobl eraill sydd â diddordeb. Rydym hefyd yn gofyn i fudiadau ymuno â Llywodraeth Cymru i gymeradwyo'r Egwyddorion a gellir cael ffurflen gymeradwyo yn ein gwefan. Dylid cwblhau a dychwelyd hon i ni drwy'r cyfeiriad canlynol participationcymru@wcva.org.uk.

Yn y cyfamser os oes gennych ddigwyddiad, Cyfarfod Blynyddol, cynhadledd a fyddai'n cynnig cyfle i hyrwyddo'r egwyddorion hyn yna byddai aelod o Cyfranogaeth Cymru yn hapus i helpu gyda gweithdy neu gyflwyniad. Os byddwn yn methu bod yn bresenol, gellir rhannu amlinelliad o weithdy a chyflwyniad Power Point gyda chi i hwyluso eich rhai eich hunain.

Wales has been consistent in promoting citizen centred public services but often realising this is more complex and challenging than it sounds. We hope that the principles will be a focus for this work and will give organisations the teeth needed to ensure that engagement work is supported and resourced to good effect.

The voice of the citizen is paramount and we, as Participation Cymru, urge you to continue to work with us to ensure that voice is heard and acted upon.

Alongside the Principles a Practitioners' Manual has also been developed, using the material produced under the Enhanced Consultation Strategy project, also funded by Welsh Government. This manual is now available on-line as a helpful guide to practitioners.

An Advisory Panel member's view:

Local government in Wales has a key role in delivering essential services to local communities. Local authorities have been working hard to establish systems that include local residents and specific service users in consultation and engagement exercises. The aim of this engagement is to improve policies and services and to provide a better fit to individual and community needs and requirements. A number of local authorities received some support for public engagement through the Local Service Board and Making the Connections programme. However, in 2010-11, Participation Cymru has emerged as the national vehicle through which coordinated public engagement support and guidance is provided to local government.

Over the past year, as a representative of the WLGA on the Participation Cymru Advisory Panel, I have worked with other Panel members and the Participation Cymru officers to establish a more strategic approach to public engagement for local government, through Participation Cymru's work on:

- **the establishment of National Principles for Public Engagement;**
- **the completion of a Public Engagement Practitioner's manual;**
- **comprehensive training programmes and networking opportunities – including equalities and waste recycling officers.**

Mae Cymru wedi bod yn hyrwyddo gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn gyson ond yn aml maent yn sylweddoli bod hyn yn fwy cymhleth a heriol nag ar yr olwg gyntaf. Gobeithiwn bydd yr egwyddorion yn ffocws i'r gwaith hwn ac yn rhoi'r gallu i fudiadau sydd ei angen i sicrhau bod gwaith ymgysylltu'n cael ei gefnogi ac yn cael yr adnoddau i gyflawni effaith dda.

Llais y dinesydd sydd bwysicaf ac rydym ni, fel Cyfranogaeth Cymru, yn eich annog i barhau i weithio gyda ni i sicrhau y clywir y llais hwnnw ac y gweithredir arno.

Ynghyd â'r Egwyddorion mae Llawlyfr Ymarferwyr hefyd wedi cael ei ddatblygu, gan ddefnyddio'r deunydd a gynhyrchwyd o dan y prosiect Strategaeth Gwella Ymgynghori, a gaiff hefyd ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r llawlyfr hwn bellach ar gael ar-lein fel canllaw defnyddiol i ymarferwyr.

Barn aelod o'r Panel Cynghori:

Mae gan lywodraeth leol yng Nghymru rôl allweddol wrth gyflenwi gwasanaethau hanfodol i gymunedau lleol. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio'n galed i sefydlu systemau sy'n cynnwys trigolion lleol a defnyddwyr gwasanaethau penodol mewn ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu. Nod yr ymgysylltu hwn yw gwella polisïau a gwasanaethau a darparu'n well ar gyfer anghenion a gofynion unigolion a chymunedau. Cafodd nifer o awdurdodau lleol rywfaint o gymorth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r rhaglen Creu'r Cysylltiadau. Fodd bynnag, yn 2010-11, mae Cyfranogaeth Cymru wedi dod yn amlwg fel y cyfrwng cenedlaethol sy'n darparu cefnogaeth ac arweiniad ar ymgysylltu cyd-defnus â'r cyhoedd i lywodraeth leol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, fel cynrychiolwr CLILC ar Banel Cynghori Cyfranogaeth Cymru, rwyf wedi gweithio gydag aelodau eraill o'r Panel a swyddogion Cyfranogaeth Cymru i sefydlu dull mwy strategol i ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer llywodraeth leol, drwy waith Cyfranogaeth Cymru ar:

- **sefydlu Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd;**
- **cwblhau llawlyfr Ymarferwyr ar Ymgysylltu â'r Cyhoedd;**
- **rhaglenni hyfforddi cynhwysfawr a chyfleoedd i rwydweithio - yn cynnwys cydraddoldeb a swyddogion ailgylchu gwastraff.**

Together with Participation Cymru, we have also been able to develop greater understanding of the issues for building public engagement in local authorities, and to provide local authority officers who are responsible for public engagement with:

- **a national network event – to become an annual event;**
- **information from and contact with key national officers from the Welsh Assembly Government and the Wales Audit Office.**

The work of Participation Cymru has been recognised as essential to progressing the public engagement agenda in Wales through continuing central funding and support. The WLGA will continue to work with Participation Cymru to support the development of citizen engagement in Wales.

Gill Clark
WLGA

And finally…..

This review is too short a document to pay extensive tribute to all those organisations we have worked with over the past year and in particular to the dedication of the Advisory Panel members. Below is a list of our partner organisations on the Advisory Panel as well as a list of those organisations we have helped in a bespoke way. This is to demonstrate the variety and number of organisations who are committed to improving the ways in which they engage with the public.

Ar y cyd â Chyfranogaeth Cymru, rydym hefyd wedi gallu datblygu gwell dealltwriaeth o broblemau ymgysylltu â'r cyhoedd mewn awdurdodau lleol, a rhoi'r canlynol i swyddogion awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ymgysylltu â'r cyhoedd:

- **digwyddiad rhwydwaith cenedlaethol – i ddod yn ddigwyddiad blynyddol;**
- **gwybodaeth gan swyddogion cenedlaethol allweddol o Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru a chyswllt â hwy.**

Cydnabyddir bod gwaith Cyfranogaeth Cymru yn hanfodol wrth symud yr agenda ymgysylltu â'r cyhoedd ymlaen yng Nghymru drwy barhau ag ariannu a chefnogaeth ganolog. Bydd CLILC yn parhau i weithio gyda Cyfranogaeth Cymru i gefnogi datblygiad ymgysylltu â dinasyddion yng Nghymru.

Gill Clark
CLILC

Ac yn olaf…..

Mae'r adolygiad hwn yn ddogfen rhy fyr i roi sylw eang i'r holl fudiadau rydym wedi gweithio â hwy dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn arbennig i ymroddiad aelodau'r Panel Cynghori. Isod, ceir rhestr o'n mudiadau partner ar y Panel Cynghori yn ogystal â rhestr o'r mudiadau rheini rydym wedi'u helpu mewn ffordd bwrpasol. Dengys yr amrywiaeth a nifer y mudiadau sydd wedi ymrwymo i wella'r ffordd y maent yn ymgysylltu â'r cyhoedd.

Advisory Panel membership:

- Association of Chief Police Officers in Wales
- Countryside Council for Wales
- HM Courts Service
- National Leadership and Innovation Agency for Healthcare
- National Museum Wales
- One Voice Wales
- Participation Unit, Save the Children Wales
- Tenants Participation Advisory Service Cymru
- Wales Association of County Voluntary Councils
- Wales Audit Office
- Wales Council for Voluntary Action
- Welsh Assembly Government
- Welsh Local Government Association
- Welsh NHS Confederation

Organisations we have worked with:

- National Public bodies
- National Leadership and Innovation Agency for Health
- Wales Audit Office
- Social Services Improvement Agency
- NHS Confederation
- Care and Social Services Inspectorate Wales
- Wales Local Government Agency
- Consumer Focus Wales
- Countryside Council for Wales
- Engage Wales (WAG)
- Sports Wales

Local Service Boards

- Caerphilly
- Torfaen
- Merthyr
- Wrexham
- Powys
- Brecon Beacons National Park
- Pembrokeshire National Park
- All Wales Substance Misuse Service User Conference 2010

Health

- Aneurin Bevan Health Board
- Abertawe Bro Morgannwg University Health Board
- Wales Ambulance Service Trust
- Public Health Wales
- Hywel Dda
- Betsi Cadwalder University Health Board
- Others (e-participation): WAST, Hywel Dda, Public Health Wales, ABHB, Cardiff and Vale UHB

Third Sector

- Powys Association of Voluntary Services
- Planning Aid Wales
- Disability Wales
- Age Cymru
- Women's Aid
- All Wales Peoples First
- Wales Council for Alcohol and other Drugs

Aelodau o'r Panel Cynghori:

- Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Gwasanaethau Llys ei Mawrhydi
- Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Un Llais Cymru
- Uned Cyfranogi, Achub y Plant Cymru
- Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru
- Cymdeithas Cynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Conffederasiwn GIG Cymru

Mudiadau rydym wedi cydweithio â hwy:

- Cyrff Cyhoeddus Cenedlaethol
- Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Iechyd
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
- Conffederasiwn GIG
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Asiantaeth Llywodraeth Leol Cymru
- Llais Defnyddwyr Cymru
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Engage Cymru (LIC)
- Chwaraeon Cymru

Awdurdodau Lleol / Byrddau Gwasanaeth Lleol

- Caerffili
- Torfaen
- Merthyr
- Wrecsam
- Powys
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Parc Cenedlaethol Sir Benfro
- Cynhadledd Cymru Gyfan ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau 2010

Iechyd

- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Eraill (e-gyfranogaeth): Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Hywel Dda, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Trydydd Sector

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Powys
Cymorth Cynllunio Cymru
Anabledd Cymru
Age Cymru
Cymorth i Fenywod
Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau eraill

For more information or for an informal discussion of your needs please contact us:
029 2043 5761
participationcymru@wcva.org.uk
WCVA, Baltic House, Mount Stuart Square, Cardiff, CF10 5FH

Ar gyfer gwybodaeth bellach neu drafodaeth anffurfiol o'ch anghenion cysylltwch â ni ar:
029 2043 5761
participationcymru@wcva.org.uk
WCVA, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

Design/ Cynllun:
www.greenergraphics.co.uk